

AL MAMBO AL SODANE

Sayed Khalifa
(Tref. Ayman Sadiq, Nick Lewis, Lee Powers - River Music Project)



YNGLŶN Â'R GÂN HON

Mae Al Mambo al Sodani yn gân adnabyddus o Swdan a wnaed yn boblogaidd gan yr artist Swdani Sayed Khalifa ar ddiwedd y 1950au. Mae'n cael ei chanu mewn Arabeg Swdan ac mae'n gân fywiog a hyfryd sy'n dathlu rhagoriaeth Swdan. Mae ei ganeuon yn parhau i fod yn boblogaidd yn Swdan ac ar draws y Byd Arabaidd. Crëwyd y fersiwn hon ar y cyd â chantorion a cherddorion o gymuned River Music Project.

THEMÂU/TESTUNAU

Dathliadau / byd / trefftadaeth

CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL CWRICWLWM

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
Y Dyniaethau
Celfyddydau Mynegiannol

YSTYRIAETHAU SY'N BENODOL I'R DISBYBLAETH

Cwmpas Lleisiol

9fed

Ffurf Lleisiol

Unsain ABCB, ABCB, ABAB

Elfennau Cerddorol

Galw/Ateb, strwythur, ffurf

Nodweddion Cerddorol

Adrannau pennill a chanol gyda chytgan yn ailadrodd ar ôl pob adran.

Ymarferion Cynhesu

- Sicrhewch fod gan ddysgwyr ddigon o le; gofynnwch iddyn nhw ddychmygu bod ganddyn nhw bensil mawr ynghlwm wrth eu pennau. Mae angen iddynt 'dynnu' lluniau a siapiau o'u dewis ar y nenfwd.
- Yna gall dysgwyr osod y ddwy fraich yn rhydd wrth eu hochrau a chadw eu pengliniau wedi plygu ychydig. Ar ôl cyfrif o bedwar, codwch y ddwy fraich yn raddol, yn syth allan wrth eu hochrau ac anadlwch i mewn. Ar ôl dal y safle hwn am bedwar curiad, gostyngwch eu breichiau'n araf, gan hisian allan yr aer heb unrhyw rym.
- Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am sain fawr neu fach, a symudiad corff i gyd-fynd ag ef. Rhowch gyfleoedd i unigolion berfformio eu sain a gofynnwch i weddill y grŵp efelychu'r hyn maen nhw'n ei glywed a'i weld.
- Dangoswch rythm nodweddiadol y gân:



Awgrymiadau o gysylltiadau allweddol i'r Meysydd eraill, themâu trawgwricwlaidd a/neu chyd-destynau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:

- Mae Gweriniaeth Swdan yn y Gogledd-ddwyrain a hi yw'r drydedd wlad fwyaf yn Affrica a'r 15fed wlad fwyaf yn y byd. Mae ganddi boblogaeth o 45.7 miliwn o bobl ac arwynebedd o 728,215 milltir sgwâr (1,886,068 km²). Cymharwch ddaearyddiaeth y wlad â Chymru – a oes ganddyn nhw unrhyw debygrwydd neu wahaniaethau?
- Mae afonydd Nîl Las a Nîl Gwyn yn cyfarfod yn y brifddinas - Khartoum i ffurfio'r Nîl, sy'n llifo tua'r gogledd trwy'r Aifft i Fôr y Canoldir. Mae cwrs y Nîl Las trwy Sudan bron yn 497 milltir o hyd. Cymharwch y Nîl ag afon yng Nghymru. Sut maen nhw'n cael eu defnyddio? A oes ganddynt unrhyw beth yn gyffredin?
- Yr iaith a siaredir fwyaf yn Swdan yw Arabeg Swdan. Mae gan Arabeg system wyddor wahanol ac fe'i darllenir o'r dde i'r chwith. Darganfod mwy amdano. Sut mae'n debyg ac yn wahanol i'r llythrennau a'r synau a'r ffoneg rydych chi'n eu hadnabod?

GRADDFA: CANOLRADD

AL MAMBO AL SODANE *Sayed Khalifa*

(Tref. Ayman Sadiq, Nick Lewis, Lee Powers - River Music Project)



Addysgu a Dysgu

- 1 Gwrandewch ar y darn yr holl ffordd drwodd. Gofynnwch i'r plant beth maen nhw'n sylwi am y darn. (Ymadroddion ailadroddus, galw ac ateb, ailadrodd 'Mambo' ac 'O' ar ddiwedd pob llinell ac ati.)
- 2 Dechreuwch trwy ddysgu Adran A (Pennill) ar y sgrin gyntaf. Caiff yr alaw ei hailadrodd ar bob llinell ac ymatebir iddi gyda 'Mambo' bob tro. Defnyddiwch y dechneg 'Dwi'n canu, 'da chi'n canu' i ddysgu fesul llinell, neu chwaraewch y trac ar y sgrin, gan bwysu saib a thoglo'n ôl i ailadrodd er mwyn i'r plant ymuno.
- 3 Mae'r ddwy linell o 'Corws-Adran B' ar Sgrin 2 yn cael eu hailadrodd sawl gwaith trwy gydol y darn. Dysgwch hyn nesaf gan ddefnyddio'r un dechneg.
- 4 Unwaith y byddwch yn gyfforddus, ewch yn ôl a chanwch drwy Adran A (Pennill) a'r Corws-Adran B. Rhannwch y dosbarth yn ddau a gofynnwch i un grŵp ganu rhan 'galw' y pennill a'r llall i 'ymateb' gyda'r 'Mambo.'
- 5 Mae gan y rhan nesaf, Adran C, alaw sy'n ailadrodd ar gyfer y 'galwad' ar bob llinell ac yn cael ei hateb gydag ymateb o 'Mambo'. Mae'r geiriau ychydig yn anodd felly dysgwch eiriau'r agwedd 'galw' trwy ddweud y geiriau mewn rhythm yn gyntaf gan ddefnyddio'r dechneg 'Dwi'n deud, 'da chi'n deud'. Gwyliwch allan am y drydedd a'r bedwaredd linell lle mae'r rhythm yn wahanol. Efallai y bydd angen ailadrodd hyn sawl gwaith nes yn hyderus.
- 6 Unwaith y bydd y rhythm wedi'i ddysgu, canwch bob llinell gan ddefnyddio'r dechneg 'Dwi'n canu, 'da chi'n canu' neu chwaraewch bob llinell a toglwch yn ôl i ailadrodd gyda'r plant yn canu. Ailadroddwch hyn ychydig o weithiau nes yn hyderus.
- 7 Dychwelwch i'r dechrau a chanwch drwy Adrannau A, B C B, gan fagu hyder wrth i chi ailadrodd y broses hon.
- 8 Ar ôl ei gwblhau, rhannwch y dosbarth yn grwpiau 'galw' ac 'ymateb' i amlygu'r agwedd hon.

Sgiliau Cyfannol

- Cenir y penillion eraill i'r un alaw a Phennill 1 (Adran A). Yr her yw ffitio'r geiriau i mewn! Defnyddiwch y dechneg 'Dwi'n deud, 'da chi'n deud', i ddysgu rhythm y geiriau yn y Pennillion eraill. Yna defnyddiwch 'Dwi'n canu, 'da chi canu' i ailadrodd yr alaw. Ymarferwch hyn sawl gwaith i fagu hyder. Ar ôl ei chwblhau, perfformiwch y gân gyda'ch gilydd, gan ddewis gwahanol ffyrdd o amlygu natur alwad ac ymateb y darn.
- Mae gan y darn gyfeiliant tri chord sy'n ailadrodd trwy gydol y darn (Ab, Eb, Fm). Ydy'r plant yn gallu adnabod y tri nodyn 'bas' hyn (Ab, Eb, F) ar offerynnau traw? Ydyn nhw'n gallu chwarae'r rhain fel llinell fas i gyd-fynd, gan newid ar yr amser iawn trwy'r gân? Er mwyn ymestyn eu sgiliau ymhellach, gallai'r plant ychwanegu'r cord triad neu greu ostinato ailadroddus priodol i gyd-fynd â'r darn.
- Mae cyfieithiad o'r geiriau ar gael ar dudalen lanio'r gân. Edrychwch ar ystyr y geiriau sydd ar gael o dan y tab geiriau. Beth yw barn y plant amdanynt? Ydyn nhw'n gallu ysgrifennu eu geiriau eu hunain i gyd-fynd â rhythm yr adran 'galw' a phob un yn ymateb gyda 'Mambo'?

AL MAMBO AL SODANE *Sayed Khalifa*

(Tref. Ayman Sadiq, Nick Lewis, Lee Powers - River Music Project)



Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

- Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwiflydig a chreadigol.
- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg.

- Tarddodd y Mambo o Giwba yn y 1930au fel cymysgedd o ddiwyllianau Affro-Caribiaidd a Lladin-Americanidd. Fe'i nodweddir gan drawsacennu rhythmig. Gwrandewch ar amrywiaeth o Mambos (rhowch gynnig ar Pérez Prado a Lou Bega), beth ydych chi'n sylwi arnyn nhw? Meddyliwch am y tempo, rhythmau ac offeryniaeth a thrafodwch.
- Mae Mambo yn defnyddio ensemble offerynnol tebyg i genres cerddorol Affro-Ciwbaidd eraill. Gall adran rhythm gynnwys offerynnau fel bongos, congas, timbales, cloch y cowboi, claves, guiro, a set drymiau. Gellir chwarae alawon gan fflwiwt, clarinet, sacsoffon, trwmped a thrombone. Mae offerynnau cerdd harmonig yn cynnwys gitâr, bas dwbl, a phiano. Dewiswch offeryn taro sy'n cyd-fynd â'r arddull mambo. Cyfansoddwch rhythm trawsacennog a chwarae gyda'r Mambo.
- Mae'r Mambo yn fath o ddawns Lladin o darddiad Ciwba. Fe'i nodweddir gan ei egni bywiog, symudiadau clun dwys, symudiadau corff hylifol, gwaith troed cyflym, a symudiadau llaw a braich hardd. Gwyliwch glip o ddawns mambo (gallai'r Mambo o'r ffilm West Side Story (1961) fod yn un dda). Ceisiwch ailadrodd rhai o'r symudiadau a welwch. Sut wnaethoch chi?

Asesu ar gyfer Dysgu:

- Mae ymateb a myfyrio, fel artist, ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.

Holi

Adnodd: Dewis o ateb

Beth yw strwythur y gân?

- Rwy'n meddwl mai ABAB yw'r strwythur oherwydd mae yna bennill a chytgan
- Mae'r strwythur mor hawdd ag ABC
- Dw i'n meddwl bod yna bennill a chytgan ac adran ganol a chorws, felly dwi'n meddwl mai ABCB ydyw.

Adborth

Adnodd: Adborth dros dro

Yn ystod addysgu a dysgu, rhowch adborth ar unwaith i ddysgwyr ar sut maent yn rheoli eu hanadlu a geirio, a pha mor dda y maent yn ymateb i'ch cyfarwyddiadau.

Hunanesiad / Asesiad gan gyfoedion

Adnodd: Deialog dysgwr i ddysgwr

- Gofynnwch i'r dysgwyr ei gymryd i mewn troi i fod yn athro pan yn trafod y perfformiad a gofyn cwestiynau. Efallai y byddwch angen rhoi rhai awgrymiadau o gwestiynau posibl, fel enghraifft:
- Ai'r Bennill neu'r Rhan oedd yr anoddaf i'w dysgu? Pam?
 - Beth ydych chi'n hoffi ei ganu fwyaf - yr ymateb neu'r alwad? Pam?

Mae'r gân hon yn waith gydweithredol gyda River Music Project.

Drymiau - Ayman Sadiq

Gitâr Fas - Lee Powers

Gitâr - Nick Lewis

Prif leisiau - Ali Elmubarck

Llais Cefnogol - Mujib Hassan,

Mona Abdullah, Basma Briar,

Yaqeen Hassan, Awaab Hassan

Cyfieithiad - Mujib Hassan

www.rivermusic.co.uk

GRADDFA: CANOLRADD